# Comisiwn y Senedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Hybrid - Digital** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 20 Ionawr 2025** |
| Amser: | **10.30 - 12.30** |

## Cofnodion: SC(6)2025(1)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Gw. Anrh. Elin Jones AS (Cadeirydd)**<br>**Hefin David AS**<br>**Janet Finch-Saunders AS**<br>**Adam Price AS**<br>**Joyce Watson AS** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Matthew Richards, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Dros Dro**<br>**Lisa Bowkett, Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**<br>**Leanne Baker, Prif Swyddog Pobl**<br>**Stephen Davies, Pennaeth Y Gwasanaethau Cyfreithiol Dros Dro, Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**Phil Boshier, Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd Dros Dro, Y Gwasanaeth Ymchwil**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**<br>**Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

### 1.a Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

### 1.b Datgan buddiant

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

### 1.c Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Comisiynwyr ar Gofnodion y cyfarfod ar 9 Rhagfyr 2024. Roedd un mater yn codi o'r cofnodion, a gafodd ei drafod ar ddiwedd y cyfarfod.

## 2 Ail Gyllideb Atodol 2024-25

Cymeradwyodd y Senedd Gyllideb y Comisiwn ar gyfer 2024-25, yn dilyn gwaith craffu gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Tachwedd 2023. Cafodd Cyllideb Atodol gyntaf y Comisiwn ar gyfer 2024-25 ei gosod ym mis Hydref 2024 ac fe'i cynhwyswyd yng nghynnig Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru yn yr un mis yn dilyn gwaith craffu gan y Pwyllgor Cyllid.

Ystyriodd y Comisiynwyr y gofyniad am ail Gyllideb Atodol, gan leihau'r gyllideb gyffredinol £2.3 miliwn a'r gofyniad arian parod net £0.9 miliwn. Roedd hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y Comisiwn i ddychwelyd cyllid o ddwy gyllideb wedi'u neilltuo lle mae tanwariant wedi digwydd yn ystod y flwyddyn:

- o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau (lleihau llinell waelod y gyllideb gyfan ond dim effaith ar y gyllideb weithredol);
- o'r gyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer y rhaglen Ffyrdd o Weithio (lleihau llinell waelod y gyllideb gyfan, dim effaith ar y gyllideb weithredol);

a mân addasiadau yn ystod y flwyddyn i'r gyllideb a osodwyd o:

- danwariant ar y gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol ar gyfer pensiynau Aelodau (lleihau llinell waelod y gyllideb gyfan, dim effaith ar y gyllideb weithredol).

Cymeradwyodd y Comisiynwyr y Gyllideb Atodol i'w chynnwys yng nghynnig cyllideb Chwefror 2025 Llywodraeth Cymru. Gwnaethant hefyd gymeradwyo'r llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i gynghori ar y bwriad i osod Ail Gyllideb Atodol.

Disgwylir i'r Pwyllgor Cyllid ystyried y Memorandwm Esboniadol yn ddiweddarach ym mis Ionawr, ac ar ôl hynny byddai'n cael ei osod a bydd ffigurau diwygiedig cyllideb y Comisiwn yn cael eu cynnwys yng nghyllideb atodol Llywodraeth Cymru.

## 3 Canlyniadau'r Arolwg Urddas a Pharch

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiynwyr am weithgareddau sy'n ymwneud ag urddas a pharch.

Nododd y Comisiynwyr ganlyniadau arolwg Urddas a Pharch y Senedd 2024; a chytunodd y dylid rhannu'r camau gweithredu a nodir yn adroddiad yr arolwg â'r Pwyllgor Safonau

Ymddygiad, y Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol, gyda'r disgwyliad y bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi'r adroddiad, ynghyd â gohebiaeth fewnol ac allanol briodol.

Wrth rannu'r adroddiad, mynegodd y Comisiwn bryder am y gyfradd ymateb isel gan yr Aelodau a'u staff cymorth a chytunodd i amlygu hyn a gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried unrhyw gamau pellach a allai wella hyn.

Nododd y Comisiynwyr hefyd y diweddariad ar gynnydd gweithgarwch a gyflawnwyd ers mis Mehefin 2023; a goblygiadau Deddf Diogelu Gweithwyr (Diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010) 2023 a'r cynllun gweithredu dilynol. Cytunwyd y dylai'r gyfres newydd o ddogfennau gwybodaeth a thempledi ar gyfer Aelodau ddod gyda chynnig, pan gaiff ei lansio, i uwch swyddog o'r Comisiwn fynychu cyfarfodydd grŵp i amlinellu goblygiadau'r Ddeddf i gyflogwyr.

## 4 <u>**Datganiadau ynghylch Awydd y Comisiwn am Risg**</u>

Cyflwynwyd y gwaith a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol i'r Comisiynwyr i ddatblygu set o ddatganiadau awydd am risg er mwyn iddynt eu trafod a'u cymeradwyo. Fel y nodir yn Egwyddorion Llywodraethu a Darpariaethau Ategol y Comisiwn, cyfrifoldeb y Comisiwn yw pennu awydd y sefydliad am risg.

Nododd Comisiynwyr mai rhan sylweddol o'u defnydd arfaethedig yw rhoi arweiniad clir i swyddogion sy'n drafftio strategaethau, cynlluniau a chynigion a bydd yn dylanwadu ar yr opsiynau y maent yn eu hargymell i'r Bwrdd Gweithredol a/neu'r Comisiwn.

Mae'r diffiniadau ar gyfer yr ystod o lefelau awydd (o Wrthwynebus i Awyddus), yn seiliedig ar ganllawiau Trysorlys EM ar reoli risg (sy'n cael ei alw yn Llyfr Oren).

Trafododd ac ystyriodd y Comisiynwyr y lefelau awydd risg ar gyfer pob categori o risg, a chawsant gyngor am yr opsiwn a ffefrir ganddynt ar gyfer lefel awydd risg. Gwnaethant ofyn i'r datganiad yn ymwneud â newid a thrawsnewid gynnwys cyfeiriad penodol at achosion busnes.

Caiff y datganiadau ynghylch yr awydd am risg eu cyhoeddi'n fewnol a'u hymgorffori mewn dogfennaeth ynghylch Rheoli Risg. Gwnaethant gytuno y bydd y datganiadau yn cael eu hadolygu a'u hail-raddnodi ar ôl blwyddyn o'u defnyddio, ac yna bob blwyddyn wedi hynny, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

## 5 <u>**Strategaeth Newid Senedd 26**</u>

Trafododd y Comisiynwyr Strategaeth Newid Senedd 26, sy'n darparu cynllun y Comisiwn ar gyfer pontio'n ddi-dor i'r Seithfed Senedd a'i chefnogi yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Mae'r strategaeth newid yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, sef dogfen gynllunio gyffredinol, hirdymor y Comisiwn o hyd. Roedd creu'r strategaeth wedi sbarduno addasiadau i'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2024-26 (darparwyd er mwyn ei nodi).

Gwnaeth y Comisiynwyr drafod a nodi'r strategaeth ac y byddai'r diweddariadau cynnydd tymhorol yn cael eu darparu, ynghyd â phapurau ychwanegol sy'n ymwneud ag unrhyw elfennau penodol o sylwedd y mae angen eu hystyried ar wahân, yn ôl yr angen.

## 6 <u>**Diweddariad Canol Blwyddyn ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol**</u>

Adolygodd y Comisiynwyr y diweddariad Dangosyddion Perfformiad Allweddol canol blwyddyn rheolaidd. Nodwyd y sefyllfa Dangosyddion Perfformiad Allweddol canol blwyddyn a bod y perfformiad at ei gilydd yn foddhaol ac yn gyson ar y cyfan, gyda llawer o welliannau neu ostyngiadau mewn perfformiad sy’n ymylol eu natur. Gwnaethant drafod y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn ymwneud ag ymwelwyr ac ymgysylltu â'r cyfryngau.

Bydd alldro terfynol y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn ffurfio rhan o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25.

## 7 Papurau i'w nodi:

7.a Cynllun Corfforaethol Diwygiedig 2024-26

Nododd y Comisiynwyr fersiwn wedi’i diweddaru o Gynllun Corfforaethol 2024-26, sy’n adlewyrchu datblygu Strategaeth Newid Senedd 26. Mae’r newidiadau wedi’u cyfyngu i gael gwared ar gynnwys a chamau gweithredu a fyddai fel arall wedi’u dyblygu rhwng Cynllun Corfforaethol 24-25 a Strategaeth Newid Senedd 26; ac esbonio sut mae cynllun Senedd 26 a’r Cynllun Corfforaethol yn ymwneud â’i gilydd.

7.b Diweddariad y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau RAD)

Nododd y Comisiynwyr y crynodeb o benderfyniadau recriwtio a ddarperir fel mater o drefn i bob cyfarfod o’r Comisiwn.

## 8 Unrhyw Fater Arall

Prosiect Bae 32 – yn dilyn ymgysylltu pellach, awdurdododd y Comisiynwyr y prosiect i ddechrau’r broses gaffael gystadleuol arfaethedig drwy gyhoeddi Hysbysiad Contract.

Mae hyn ar y sail y byddai ymgysylltiad pellach yn yr hydref, cyn unrhyw benderfyniadau allweddol.

Diweddariad ar benodiadau IRB, cytunodd y Comisiynwyr i wneud y penderfyniad angenrheidiol drwy ohebiaeth

Atgoffwyd y Comisiynwyr y byddai'r cyfarfod nesaf ar gyfer deialog y Comisiwn/IRB yn cael ei gynnal y prynhawn hwnnw.

Cafodd y Comisiynwyr eu diweddaru ar faterion staffio ym mhresenoldeb y swyddogion canlynol: Matthew Richards a Leanne Baker.

Yn y cyfnod ers y cyfarfod diwethaf, roedd y Comisiynwyr wedi nodi llythyr oddi wrth y Prif Weithredwr a’r Clerc, ar 17 Ionawr 2025, i hysbysu Comisiynwyr o swydd wag ar y Bwrdd Taliadau.